# CYNGOR TREF LLANGEFNI

**COFNODION** Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 13eg o Orffennaf 2026** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

**YN BRESENNOL:**
Cyng. Margaret Thomas-Cadeirydd

Cyng. John Egryn Lewis
Cyng. Alwyn Parry
Cyng. Non Roberts-Smith
Cyng. Terry Jones

Cyng. Huw Owen
Cyng. Non Parry
Cyng. Alwyn Parry
Cyng. Arwel Môn Hughes,

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**Cynghorydd Sir:** Cyng. Dylan Rees
**Medrwn Môn:** Sherie Ellingworth
**Heddlu Gogledd Cymru**: Alison Williams

*Croesawodd Cyng. Margaret Thomas yr Aelodau*

**26/102** **Ymddiheuriadau:** Cyng. Henry J**ones**

**26/103** **Datganiad o Ddiddordeb:** Dim.

**26/104** **Heddlu Gogledd Cymru:** Gweler y cyflwyniad isod**.**

**26/105** **Cyflwyniad Hwb Ieuenctid:** Amlinellodd Sherie Ellingworth o Medrwn Môn a SCCH Alison Williams o Heddlu Gogledd Cymru gynigion ar gyfer sefydlu canolfan ieuenctid yn y dref. Gofynnwyd iddynt ddod yn ôl gyda rhai cynigion ar gyfer cefnogaeth gan y Cyngor ar gyfer cyfarfod mis Medi**.**

**26/106** **Derbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 08:06:2026 :**
Penderfynwyd derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**26/107** **Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 08.06.2026 :**
Mae'r Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Y Clerc yn cadarnhau fod dim cyfathrebiad wedi'i dderbyn trwy'r Swyddfa.

i. Gofynnodd Cyng. Egryn Lewis pam fod cerbyd y Cyngor wedi derbyn ei MOT yng Ngaerwen ac nid Llangefni.

**26/108 I Dderbyn Penderfyniadau Pwyllgor Cynllunio:**
Cytunwyd Cofnodion Cyfarfod 08.06.2026.

**26/109 I Dderbyn Penderfyniadau Pwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chware 15.06.2026.**
Cytunwyd Cofnodion Cyfarfod 15.06.2026.

**26/110 I dderbyn Penderfyniadau Pwyllgor Cyllid 22.06.2026.**
Cytunwyd Cofnodion Cyfarfod 22.06.2026.

**26/111 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer:** Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu agoriad Canolfan Glanhwfa a chyfarfodydd blynyddol CPD Cefni ac Adfywio Llangefni.

**26/112 Materion yn Codi Gan Aelodau:** Roedd y Clerc a'r Maer wedi cyfarfod â Mr Twigg o Glwb Pêl-droed Cefni i drafod defnyddio'r cae a'r cyfleusterau yn Lôn Newydd. Roedd Mr Twigg wedi sicrhau i'r Maer y byddent yn cydweithredu â'r clwb pêl-droed ieuenctid ac yn cadw'r cyfleusterau mewn trefn dda. Byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach ym Mhwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae ar 14 Medi 2026.

**26/113 Adroddiad y Clerc:**

Cynigiodd y Clerc fod y Cyngor yn mabwysiadu:
i. Y Gofrestr Asedau ac Asesiad Risg wedi ei ddiweddaru.
**Cynigiwyd**: Cyng. Non Parry, Eiliwyd: Cyng. Geraint Bebb
ii. Mabwysiadu'r rhestr atodedig o 17 Polisiau.
**Cynigiwyd:** Cyng. Non Parry, Eiliwyd: Cyng. Non Roberts-Smith
ii. Hysbysebu swydd y Clerc i ddechrau trwy gyfryngau rhad (Papurau Bro) ym mis Gorffennaf ac Awst. Byddai'r Cyngor yn ystyried defnyddio ffynonellau taledig h.y. y Daily Post pe na bai hyn yn llwyddiannus.
iii. Bydd gwefan newydd Cyngor y Dref yn mynd yn fyw ar 27 Gorffennaf.

**26/114 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol:** Roedd adroddiadau gan Un Llais Cymru a Grŵp Adfywio Llangefni wedi eu rhannu. Cytunwyd, yn y dyfodol, y byddai adroddiadau a gohebiaeth yn cael eu hanfon drwy e-bost at aelodau'r Cyngor ac na fyddent yn ymddangos ar y Rhaglen.

**26/115 Cyllid:**

**1 I dderbyn Mantolen Ariannol Mis Mehefin :** Penderfynwyd derbyn y Fantolen yma.

**2 Adroddiad yr Archwilydd Mewnol**: Roedd yr archwilydd mewnol wedi nodi nad oedd y system daliadau presennol yn caniatáu digon o archwilio gan Gynghorwyr.
Cynigiwyd y byddai'r taliadau cytundebol (e.e. cyflogau, biliau cyfleustodau ac ati) yn cael eu talu yn unol â'r contract a'u nodi ar y fantolen o fis Medi ymlaen. Fodd bynnag, byddai angen i'r Cyngor gymeradwyo pob taliad arall yn y cyfarfod nesaf cyn iddynt gael ei thalu.

**Cynigiwyd**: Cyng.Terry Jones **Eiliwyd**: Cyng. Geraint Bebb

ii. Balansau Banc: Barclays E/P £139,859.90 Busnes Barclays (i) £7336.84 Busnes Barclays (ii) £5785.24

***PARHAD 26/115***

iii. Prosiect Maes Chwarae Lon Las : Roedd y contract hwn wedi'i ariannu gan Gyngor Sir Ynys Môn (£47k) ac roedd y gwaith ar fin dechrau. Roedd swyddog Môn Active, a fyddai wedi rheoli'r prosiect, yn gadael ac nid oedd y Cyngor Sir yn gallu rhoi grant i Gyngor Tref Llangefni i ariannu rhywun arall yn ei le.

Roedd y Clerc wedi cysylltu â nifer o unigolion sy'n gweithio yn y maes hwn. Nid oedd y rhan fwyaf ar gael ar fyr rybudd ond roedd Josie Rhisiart, cyn Swyddog Gweithredol ym Mynwybodaeth. Byddai hi'n codi £250 y dydd hyd at uchafswm o £7K.

Cynigiwyd derbyn hyn i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni cyn dechrau'r gaeaf.

**Cynigiwyd**: Cyng. Margaret Thomas **Eiliwyd**: Cyng. Terry Jones.

iv. Roedd Arnold Milburn, y Swyddog Cyllid, yn dymuno ymddeol o'i swydd. Cytunwyd i chwilio am rywun a fyddai â diddordeb mewn gweithio tua 15 awr y mis @ £24 yr awr. Cytunwyd i'r Maer a'r Clerc i wneud hynny ac adrodd yn ôl i'r Cyngor nesaf ar 7fed Medi.

**26/116 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :** Er gwybodaeth.

1 Gweler Atodiad 1

**26/117 Gohebiaeth a Materion Newydd :**

i. Enwi Strydoedd. Parc y Coed. Roedd y Cyngor o'r farn y byddai 'Maes Cyngar' yn enw da.

ii. Llifogydd. Roedd y Cynghorydd Non Parry yn helpu i atgyfodi'r Fforwm Llifogydd.

**26/118 Gohebiaeth: Er Gwybodaeth:**
**Materion wedi'u hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Mehefin 2026:**

**1** Un Llais Cymru - Derbyn
**2** Materion Eraill - Derbyn

Er gwybodaeth.

**26/119 Unrhyw Fater Brys gan y Cadeirydd :**
Cytunwyd i ganslo'r Cyfarfod Staffio ar 27 Gorffennaf gan fod yr holl faterion staffio oedd heb eu datrys wedi'u trafod yn y Cyfarfod yma.

***CYNG. MARGARET THOMAS***
***CADEIRYDD***